Atal Tân Cymru
Firebrake Wales
Elusen Diogelwch Tân Cymru
The Welsh Fire Safety Charity

Adroddiad Diogelwch Tân gan Atal Tân Cymru 2009

Crynodeb Gweithredol

Ynglŷn ag Atal Tân Cymru / Firebrake Wales

Mae Atal Tân Cymru, Elusen Diogelwch Tân Cymru, yn derbyn cyllid gan y tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru a Llywodraeth y Cynulliad er mwyn cefnogi ei chenhadaeth i ostwng nifer y marwolaethau a'r anafiadau oherwydd tân. Gan ganolbwyntio'n benodol ar ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth i gefnogi ei gweithgareddau, mae'r elusen wedi ceisio dwyn ynghyd ymchwil berthnasol o amrywiaeth eang o ffynonellau yng Nghymru, y Deyrnas Unedig a thu hwnt, a hynny er mwyn goleuo polisïau ac ymarfer ym maes diogelwch tân yn y cartref.

Mae'r Adroddiad Diogelwch Tân gan Atal Tân Cymru 2009 yn cyflwyno ystod o ganfyddiadau allweddol o'r ymchwil hwn, ac yn ychwanegu atynt y canfyddiadau a gafwyd yn dilyn arolwg unigryw Atal Tân Cymru ar *Agweddau tuag at Ddiogelwch Tân yng Nghymru* a gynhaliwyd ymhlith sampl gynrychioliadol o boblogaeth Cymru yn 2009. Ein gobaith yw y bydd yr adroddiad hwn o ddiddordeb i ymarferwyr yn y Gwasanaethau Tân ac Achub, mewn sefydliadau sy'n bartneriaid cyfredol inni neu'n rhai posib, ac i bawb sydd â diddordeb mewn gwneud cymunedau Cymru yn fwy diogel rhag tân.

Tanau Damweiniol yn y Cartref

Trwy ddadansoddi data ynglŷn ag achosion o dân yng Nghymru (ffynhonnell: Adroddiadau Data Tân FDR1, fel y'u cyflwynwyd gan y Gwasanaethau Tân ac Achub), gwelir bod:

- Nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi a gofnodwyd yng Nghymru wedi bod yn disgyn ar gyfradd gyfartalog o **3.9%** y flwyddyn rhwng 1999 a 2007 (Y Deyrnas Unedig = 3.6% y.f.);
- Nifer yr anafusion (angheuol ac anangheuol) o ganlyniad i danau o'r fath yng Nghymru hefyd wedi bod yn disgyn, ar gyfradd flynyddol gyfartalog o **4.9%** dros yr un cyfnod;
- Tra bo'r rhan fwyaf o'r grwpiau oedran yn dilyn y tueddiad cyffredinol hwn am y lawr, mae nifer yr anafusion (angheuol ac anangheuol) ymhlith y rhai sydd **dros 60 mlwydd oed** wedi aros yn gymharol gyson. Mae'r grŵp oedran hwn yn cael ei orgynrychioli'n fawr o'i gymharu â'i bresenoldeb o fewn y boblogaeth yn gyffredinol;
- '**Offer coginio**' yw'r ffynhonnell sydd yn dal yr un fwyaf tebygol o gynnau tanau damweiniol yn y cartref yng Nghymru, sef **53%** o danau o'r fath yn 2007;
- Yn 2007, roedd '**Pethau ysmygu**' yn gyfrifol am ddim ond **8% o'r tanau damweiniol yn y cartref** ond yn gyfrifol am **12% o'r anafusion** a **44% o'r marwolaethau** mewn tanau o'r fath.

Larymau Mwg ac Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref

Mae gosod larymau mwg a gofalu amdanynt yn iawn, ynghyd ag ymyriadau uniongyrchol eraill yn y cartref, megis yr Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref, yn chwarae rhan hollbwysig mewn diogelwch tân ac atal tanau.

- Yn arolwg Atal Tân o sampl gynrychioliadol o boblogaeth Cymru yn 2009, adroddir bod **94%** o gartrefi preifat yn honni bod ganddynt **o leiaf un larwm mwg sy'n gweithio**.
- Fodd bynnag, ymhlith y rhai sydd â larymau mwg, **nid oes gan 20%** un ar bob lefel o'u cartref, **dim ond 13%** sy'n profi eu larymau bob wythnos, ac **nid oedd 10% erioed** wedi eu profi ar ôl eu gosod.
- Hefyd, mae nifer y larymau mwg yn llawer is o ystyried data'r Gwasanaethau Tân ac Achub ynglŷn â'r **tanau yr aethpwyd atynt**. Yn 2007, roedd larymau mwg yn bresennol mewn **64%** o gartrefi, a dim ond wedi canu mewn **47%** o'r achosion – ac mae hynny'n awgrymu naill ai bod perchnogaeth larymau mwg wedi ei orddatgan, neu, ac efallai'n fwy tebygol, fod y rhai sydd heb larymau mwg yn fwy tebygol o gael tân.
- Mae dau draean (**67%**) o'r boblogaeth yn honni eu bod wedi clywed am Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref – gyda'r mwyafrif llethol (**86%**) yn datgan 'nad oes ganddynt broblem' gyda rhywun o'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn dod i'w cartref i gynnal Archwiliad. Gallai'r lleiafrif sy'n weddill, a ddywedodd y byddent yn teimlo'n 'anghyfforddus' gyda hyn, fod yn her i'r Gwasanaethau – yn enwedig os yw'r bobl hyn hefyd yn rhai sydd mewn perygl uwch o gael tân yn y cartref.

Atal, 'Risg' a Thargedu

Mae'r pwyslais clir ar **atal** tanau ac ar greu cymunedau mwy diogel yn cael ei adlewyrchu yng 'Nghynlluniau Lleihau Risg' yr Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru, a hefyd yn y mentrau niferus ym maes diogelwch tân cymunedol a ddarperir gan y Gwasanaethau Tân ac Achub.

Mae Gwasanaethau Tân ac Achub trwy'r Deyrnas Unedig wedi ceisio adnabod y grwpiau '**risg**' neu '**risg uchel**' er mwyn bod yn well am dargedu gweithgareddau diogelwch tân. Mae'r ymchwil a'r llenyddiaeth berthnasol yn y byd datblygedig drwyddo draw wedi adnabod rhai ffactorau risg cyffredinol, sy'n cynnwys ysmygu ac ymddygiadau sy'n gysylltiedig â hynny; camddefnyddio alcohol, cyffuriau a sylweddau, coginio heb gadw golwg, a bod yn esgeulus wrth wresogi a risgiau sy'n gysylltiedig ag oedran (yr ifanc a'r oedrannus). Fel y nododd Brennan[1] "certain key demographic and behavioural characteristics of occupants have been shown to have universal relevance to residential fire fatalities and injuries".

Mae sawl 'offeryn' i'w cael ar hyn o bryd i gynorthwyo'r Gwasanaethau Tân ac Achub i dargedu Archwiliadau Diogelwch Tân ac Achub a mentrau diogelwch tân cymunedol eraill (e.e. MOSAIC, Acorn, ystadegau cenedlaethol, data ynglŷn ag achosion FDR1 ayyb.). Fodd bynnag, efallai fod gan offer ychwanegol hefyd, le ar gyfer gwella'r ffordd i dargedu **o fewn** 'y 'grwpiau risg' a nodir, ac i wella'r ffordd i dargedu yn ôl **ymddygiadau** (e.e. dibyniaeth ar gyffuriau/alcohol ac ysmygu).

Daeth ymchwil ymysg y Gwasanaethau Tân ac Achub yn Lloegr[2] i'r casgliad fod **gweithio mewn partneriaeth** yn "visible and shared". Yn wir, fe allai partneriaethau o'r fath fod yn hanfodol ar gyfer cyrraedd a dylanwadau ar y rhai sy'n agored i danau yn y cartref am resymau heblaw'r lle y maent yn byw (e.e. cyfyngiadau ar symudedd, cyflyrau iechyd, camddefnyddio sylweddau, agweddau at risg neu ddewisiadau ffordd o fwy).

Agweddau tuag at Beryglon Tân

Gofynnodd arolwg Atal Tân o sampl gynrychioliadol o boblogaeth Cymru nifer o gwestiynau ynglŷn ag agweddau tuag at ddiogelwch tân yn y cartref. Mae'r ymatebion a gafwyd wedi bod yn fodd i Atal Tân 'segmentu' poblogaeth Cymru yn ôl eu hagweddau tuag at ddiogelwch tân. Mae'r dechneg o ddadansoddi clystyrau wedi pennu **8 clwstwr** i gyd, gyda disgrifiad o'r **5 pwysicaf** (o ran yr angen i fynd i'r afael ag agweddau tuag at ddiogelwch tân) fel a ganlyn:

[1] *Victims and Survivors in Fatal Residential Building Fires* (yn *Human Behaviour in Fire: Proceedings of the 1st International Symposium, Belfast*), Brennan, P. (1998)
[2] *Final Evaluation of the Home Fire Risk Check Grant and Fire Prevention Grant Programme,* Yr Adran dros Gymunedau a Llywodraeth Leol, Mawrth 2009.

Segment	Characterised by:	% of Popn.
Rhai'n cymryd risg ond yn gwadu hynny	Agweddau peryclach na'r cyfartaledd mewn perthynas â nifer o faterion diogelwch tân, ond yn llai tebygol o feddwl y bydd tân yn digwydd yn eu cartref.	**10%**
Rhai'n cymryd risg uchel	Agweddau peryclach na'r cyfartaledd mewn perthynas â'r ffactorrau risg uwch, a llai ffafriol tuag at larymau mwg.	**6%**
Rhai'n cymryd risg is	Agweddau peryclach na'r cyfartaledd mewn perthynas â rhai o'r ffactorau risg.	**16%**
Yn cymryd dim cyfrifoldeb	Ddim yn meddwl mai eu cyfrifoldeb hwy yw eu risg tân, ac agwedd mwy anochel tuag at dân yn digwydd.	**6%**
Ddim yn meddwl am y peth	Diogelwch tân heb fod yn rhywbeth y maent yn meddwl amdano, ac yn dangos agweddau peryclach na'r cyfartaledd mewn perthynas â rhai o'r ffactorau risg is.	**9%**

- Roedd y dadansoddiad yn awgrymu 'negeseuon allweddol' ar gyfer pob segment, ac mae cael gwell dealltwriaeth o'r gwahanol fathau o agweddau yn bwysig er mwyn deall y bwlch sy'n bodoli rhwng ymwybyddiaeth o'r angen i fabwysiadu mesurau diogelwch tân, a mynd ati i gymryd y camau i leihau'r risgiau hynny.
- Mae'r proffiliau agweddau hyn hefyd yn gallu cynorthwyo i oleuo'r ffyrdd mwyaf effeithiol i feithrin perthynas â'r rhai sydd mewn mwyaf o berygl.
- Gallai llawer o sefydliadau yn y sectorau gwirfoddol, preifat a chyhoeddus sy'n gweithio o fewn cymunedau Cymru fod mewn sefyllfa i adnabod y mathau gwahanol o agweddau sy'n bodoli ymysg y rhai sy'n defnyddio eu gwasanaethau. Mae ganddynt hefyd brofiad helaeth o weithio gyda'u cleientiaid i lwyddo i gael newidiadau mewn amgylchiadau ac ymddygiadau mewn agweddau eraill ar eu bywyd.

Partneriaethau

Mor bell yn ôl â 1998, tynnodd Rhodes and Reinholtd[3] sylw at yr angen am i gael ffordd holistaidd o fynd ati wrth ymdrin â pherygl o farw neu gael anaf oherwydd tân ymhlith y rhai mwyaf agored i hynny. Yn benodol, fe wnaethant argymell y dylai'r gwasanaethau tân roi mwy o bwyslais ar **ddatblygu rhwydweithiau** a dysgu sut i weithio gydag **ystod o sefydliadau cymunedol**.

Mae cydweithredu a gweithio mewn partneriaeth hefyd yn themâu allweddol yn rhaglen 'Creu'r Cysylltiadau gan Lywodraeth y Cynulliad ac yn eu *Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub ar gyfer Cymru 2008-2011.* Mae cryn dystiolaeth fod gweithio mewn partneriaeth yn cael ei fabwysiadu gan Wasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru a Lloegr er mwyn **adnabod, cyrraedd** a **meithrin perthynas** gyda'r rhai sy'n anodd eu cyrraedd, a charfannau o'r gymuned sy'n agored i beryglon.

Er bod partneriaethau o'r fath yn gallu amrywio, o drefniadau lleol ac anffurfiol i strwythurau ffurfiol a chymhleth, byddai rhai egwyddorion a gwersi allweddol cyffredinol, mewn perthynas â gweithio mewn partneriaeth yn y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol, yn gallu goleuo, cefnogi a chynnal partneriaethau mwy effeithiol, a hynny er mwyn gostwng nifer yr achosion o danau.

[3] *Beyond Technology; a holistic approach to reducing fire fatalities*. Rhodes, A. & Reinholtd, S. (Australian Journal of Emergency Management, 1998)

Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod y gall rhai heriau sylweddol fodoli mewn perthynas â chydweithio. Gall rhai arferion, fel y'u nodir o fewn arweiniad Trysorlys EM[4], beryglu partneriaethau os nad ymdrinnir â hwy, sef:

- Rhagdybio bod gweithio mewn partneriaeth yn hawdd, ac y gall unrhyw un wneud hynny heb brofiad
- Ceisio prysuro neu ruthro syniadau heb ymgynghori yn eu cylch
- Cymryd cyfathrebu effeithiol yn ganiataol
- Diystyru neu gladdu pryderon, neu dalu gwrogaeth wag wrth wrando ar bryderon pobl eraill
- Tanseilio awdurdod partneriaid trwy beidio â pharchu dyletswydd atebolrwydd i'w rhanddeiliaid
- Bod â dull unffurf o fynd o'i chwmpas hi
- Rhagdybio nad oes cost ynghlwm â gweithio mewn partneriaeth (o ran amser ac arian)

Argymhellion Atal Tân

1. Tanau damweiniol yn y cartref

Hoffai Atal Tân weithio'n agosach â'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru a Llywodraeth y Cynulliad wrth gasglu a dadansoddi'r holl ddata sydd ar gael ynglŷn â thanau damweiniol yn y cartref, a hynny er mwyn goleuo strategaethau'r dyfodol ar atal tanau.

Hefyd, mae Atal Tân wrthi'n archwilio ffynonellau data eraill (e.e. cyflyrau iechyd, lles cymdeithasol, tai, ayyb) sy'n berthnasol i beryglon tân trwy fod mewn cysylltiad â sefydliadau academaidd. Bydd yr elusen yn integreiddio'r canfyddiadau hyn gyda data am achosion o dân er mwyn gwella strategaethau diogelwch tân yng Nghymru.

2. Larymau mwg ac Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref

Hoffai Atal Tân weithio gyda'r Gwasanaethau Tân ac Achub ar y gwaith parhaus o ddatblygu'r fenter Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref trwy Gymru. Yn arbennig, fe allai Atal Tân gyfrannu at y dulliau 'cydgysylltiedig' o ddarparu gwasanaethau, cofnodi, monitro a gwerthuso canlyniadau.

Mae Atal Tân mewn sefyllfa dda, ac mae ganddo'r gallu a'r cymhwyster i feithrin perthynas â'r Gwasanaethau trwy Gymru. Bydd yr elusen yn parhau i gasglu ac i rannu arferion da gyda Gwasanaethau Tân ac Achub trwy'r wlad ac o weithgareddau diogelwch tân trwy'r Deyrnas Unedig.

3. Atal, risg a thargedu

Gall Atal Tân wella'r strategaethau presennol y mae'r Gwasanaethau'n eu defnyddio i dargedu gweithgareddau atal tanau. Bydd Atal Tân yn parhau i gasglu a dadansoddi ymchwil i ddiogelwch tân, a gall gynnal ymchwil pellach yn y maes hwn. Dylid defnyddio'r dystiolaeth hon i gyrraedd a meithrin perthynas â'r rhai sydd fwyaf mewn perygl.

Mae Atal Tân yn darparu adnodd gwerthfawr ar gyfer diogelwch tân, a bydd yn parhau i wneud ei agenda ymchwil yn gydnaws â gofynion a blaenoriaethau'r Gwasanaethau yng Nghymru a Llywodraeth y Cynulliad, yn rhai cyfredol a rhai'r dyfodol.

[4] *Effective Local Partnerships; A Checklist for Local Practitioners in the Public and Voluntary Sectors.* HM Treasury

4. Agweddau tuag at ddiogelwch tân

Bydd Atal Tân yn defnyddio'r proffiliau agweddau yn rhan o'r ffordd i adnabod y rhai sydd fwyaf anodd eu cyrraedd a'r rhai y mae'n fwyaf anodd dylanwadu arnynt trwy ddulliau arferol o hyrwyddo diogelwch tân. Yna, gallai'r wybodaeth hon gael ei chysylltu â'r gwaith o ddatblygu partneriaethau diogelwch tân gyda'r sefydliadau perthnasol yn y gymuned a defnyddio modelau arferion da ar gyfer annog ymddygiadau mwy diogel.

Efallai y bydd tystiolaeth o'r astudiaeth o agweddau o fudd i'r Gwasanaethau Tân ac Achub wrth oleuo eu strategaethau ar gyfer hyrwyddo diogelwch tân ymysg y cyhoedd.

5. Partneriaethau

Mae Atal Tân yn croesawu'r cyfle i weithio'n agos gyda'r Gwasanaethau ac eraill er mwyn datblygu a gweithredu strategaethau trosfwaol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yng Nghymru. Bydd hyn yn adeiladu ar enghreifftiau o arferion da yng Nghymru a rhannau eraill o Brydain. Lle bo hynny'n briodol, bydd yr elusen yn ymgorffori'r hyn a ddysgir o ganlyniad i bartneriaethau effeithiol y tu allan i faes diogelwch tân.

Mae gan Atal Tân ddealltwriaeth o ddiwylliannau, strwythurau, blaenoriaethau ac arferion y Gwasanaethau a sefydliadau sy'n gweithio yn y gymuned. Felly, mae mewn sefyllfa dda i gefnogi pawb sy'n ymwneud â phontio ac osgoi maglau posib a allai fodoli mewn perthynas â gweithio mewn partneriaeth.

Bydd Atal Tân yn parhau i wneud gwaith ymgynghorol ac ymchwil gyda sefydliadau sy'n gweithio gyda, ac er mwyn, pobl sydd fwyaf mewn perygl o dân, y rhai mwyaf anodd eu cyrraedd a/neu ddylanwadu arnynt. Bydd y canfyddiadau o fudd i oleuo'r gwaith o ddatblygu partneriaethau sydd fwyaf priodol ar gyfer yr angen, ac yn cadw mewn cof y cyfleoedd penodol sy'n bodoli o weithio gyda'r sefydliadau a ddewisir.

Gall Atal Tân gynnig "cefnogaeth dechnegol" i'r Gwasanaethau a sefydliadau eraill i hwyluso'r gwaith o sefydlu a datblygu mentrau cydweithredol yn barhaus. Gall hyn gynnwys cyflwyniadau, cyfarfodydd, hyfforddiant, polisïau a gweithdrefnau enghreifftiol (e.e. cytundebau lefel gwasanaeth, cytundebau partneriaethol, ffurflenni atgyfeirio, systemau monitro a gwerthuso), a bydd yn cefnogi pob partner i geisio datrys unrhyw drafferthion a allai godi.